Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

INF188/1W



# Canllaw i safonau golwg ar gyfer gyrru ceir a beiciau modur (Grŵp 1)

**Cadwch y daflen hon yn ddiogel fel eich bod yn gallu cyfeirio ati yn y dyfodol**

**Rydym yn adolygu'r rheolau hyn bob chwe mis, yn dilyn derbyn y cyngor mwyaf diweddar gan Baneli Ymgynghorol Meddygol Anrhydeddus yr Ysgrifennydd Gwladol.**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
BUDDSODDWYR MEWN POBL
Arian tan 2019

4/19

## Golwg mewn un llygad yn unig

Os gallwch weld gydag un llygad yn unig, mae'n bosibl y byddwch o hyd yn gallu bodloni'r safonau ar gyfer gyrru a gyflwynir isod. Gall gymryd hyd at dri mis neu'n fwy ichi addasu at yrru gydag un llygad, felly byddwch yn barod am hyn. Mae'n bosib y bydd eich gallu i farnu pellterau'n cael ei effeithio ac efallai na fyddwch mor ymwybodol o wrthrychau i bob ochr i chi. Yn dilyn colli golwg mewn un llygad ni ddylech yrru tan eich bod wedi'ch cynghori gan eich meddyg neu optegydd eich bod wedi addasu'n llawn i weld gydag un llygad yn unig. Ni ddylech ailgychwyn gyrru oni bai y gallwch gwrdd â'r safonau ynghylch craffter gweledol a maes gweledol a gyflwynir isod.

## Effeithir ar un llygad gan gyflwr meddygol

Os oes gennych gyflwr meddygol sydd ond yn effeithio ar un llygad ar hyn o bryd, efallai y byddwch yn dal i fodloni'r isafswm safonau golwg ar gyfer gyrru a nodir isod. Os yw'ch cyflwr yn effeithio ar y ddau lygad, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni.

## Cataractau

Rhaid i'ch golwg fodloni'r isafswm safon golwg a nodir isod i ganiatáu i chi barhau i yrru ar ôl y llawdriniaeth.

## Safonau craffter gweledol

Mae'r safon golwg cyfreithiol yn golygu bod rhaid i chi fedru darllen plât rhif car o 20 metr i ffwrdd. Hefyd, rhaid i chi beidio â bod wedi clywed gan feddyg neu optegydd bod eich golwg ar hyn o bryd yn waeth na 6/12 (degol 0.5) ar y raddfa Snellen. Os oes gennych unrhyw amheuon, dylech eu trafod gyda'ch optegydd neu feddyg. Os oes angen, gallwch wisgo sbectolau neu lensys cywiro i fodloni'r ddwy safon hyn.

Os na fyddwch yn bodloni'r safon hon ni allwch yrru ar ffordd gyhoeddus. Os byddwch yn gyrru ar ffordd gyhoeddus, byddwch yn euog o drosedd. Dylech wirio'n rheolaidd drosoch eich hun a ydych yn cwrdd â'r safon hon ai peidio. Hefyd, os bydd yr heddlu yn amau nad oes gennych y safon berthnasol o ran golwg, gallant eich gorfodi i gymryd y 'prawf plât rhif'. Os na allwch ddarllen y plât rhif, efallai y bydd eich trwydded yn cael ei diddymu a gallech gael eich erlyn. Nid yw dyfeisiadau bioptig (telesgop) yn dderbyniol i'w defnyddio wrth yrru ym Mhrydain Fawr.

## Safonau ar gyfer maes golwg

Eich maes golwg yw'r hyn a welwch wrth edrych mewn un safle. Rhaid i chi fod â maes golwg digonol i yrru'n ddiogel. I fodloni safon eich maes golwg, rhaid i chi fod yn gallu gweld o fewn pellter penodol heb fod yna broblemau sylweddol yn y maes gweld. Os ydych wedi colli eich golwg yn llwyr yn un llygad, rhaid i chi beidio bod ag unrhyw broblem gyda'r maes golwg yn eich llygad arall. Os oes gennych unrhyw amheuaeth os ydych yn gallu bodloni'r safon berthnasol, gofynnwch am gyngor eich meddyg teulu, optegydd neu arbenigwr llygaid.

**Er lles diogelwch y ffordd, rhaid i chi sicrhau y byddwch yn gallu rheoli car modur yn ddiogel bob amser. Os bydd eich golwg yn gwaethygu ac ni allwch ddarllen plât rhif o'r pellter perthnasol, neu eich bod yn colli peth o'ch maes golwg, rhaid i chi ddweud wrthym. Dylech roi eich enw a'ch cyfeiriad neu eich rhif gyrrwr pa bryd bynnag y byddwch yn cysylltu â ni.**

**Cysylltu â ni**

Os bydd eich meddyg teulu, optegydd neu arbenigwr llygaid yn dweud wrthych am roi gwybod i ni am eich anhawster gyda'ch golwg, mae angen i chi lenwi'r holiadur meddygol perthnasol. Gellir lawrlwytho holiaduron o **www.gov.uk/health-conditions-and-driving**

Gellir archebu holiaduron trwy:

| | |
|---|---|
| Ffôn: | **0300 790 6806 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg** |
| Ysgrifennu i: | **Grŵp Meddygol y Gyrwyr<br>DVLA<br>Abertawe<br>SA99 1TU** |

Am wybodaeth bellach **www.gov.uk/driving-eyesight-rules**

## Cadwch yn gyfoes â'n newyddion diweddaraf a gwasanaethau.

## gov.uk/dvla